Cliciwch am y Gymraeg

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU

# BRAVE NEW WALES

**Harnessing the power of skills and lifelong learning to recover and rebuild a better Wales.**

The Open University in Wales' manifesto asks for the 2021 Senedd elections.



# FOREWORD



## Louise Casella, Director of The Open University in Wales

For many thousands of people across Wales, 2020 has been an incredibly challenging and difficult year. We must not forget the enormous sacrifice and loss that many have faced.

The events of these past months have disrupted our lives in a way few of us had imagined possible. So, too, have they disrupted our economy, our society, and our workplaces.

This year, we have all had to adapt and change. But through all the darkness, there have undoubtedly been glimmers of light and hope in our communities.

While we will all be pleased to see the back of this year's dark moments, we must hold on to those positive changes which emerged from this year's crisis.

One of those changes is a renewed focus on the importance of learning. By that, I don't only mean formal learning with a qualification at the end of it, but also informal learning.

And as we rebuild and recover, we must not lose the opportunity to radically alter the way we all think about learning.

We cannot afford to simply go back to the way things were. If we are going to rebuild our economy and help society recover, we will all need to be able to learn new things.

Flexible learning has, perhaps, never been so important. Getting back on our feet will need us all to be able to combine many other commitments, be they work, family, or volunteering.

The Senedd elections in 2021 will result in a new government and, whatever form it takes that new government has an opportunity to learn from this year and reshape our country.

Just as universities face a number of challenges, not least following this year's events, so too do we as a country. We must be bold enough to see these challenges as opportunities to improve and grow.

We must be prepared to show the same kind of bravery and radical thinking as The Open University's founders when they created the 'university of the air' in 1969.

By doing this, not only will we be playing our part in the rebuilding and recovery, but we will also build a country that we can be proud to pass on to future generations.

That is central to the mission and purpose of The Open University: to open up education and lifelong learning to all our citizens, and to be a movement for change.

It is in that spirit that I am proud to present The Open University in Wales' manifesto for the sixth Welsh general election and I urge all political parties to take our asks on board.

Louise Casella

**Louise Casella**

Director of The Open University in Wales

# SKILLS AND LIFELONG LEARNING IN A POST-COVID WALES

We cannot get away from the fact that what remains of 2020, and the months and years ahead, will be dominated by the impact of this year's Coronavirus crisis.

Quite aside from its obvious effect on the health of our citizens, it has been and will continue to be incredibly damaging to the economy and to the fabric of our society.

As we seek to rebuild and recover, we must not go back to the old way of doing things. Reclaiming normality should not mean back to normal.

This crisis has brought challenges we were expecting over the course of the coming decades to the here and now, and we need to adapt in order to survive.

Lifelong learning has always been important, but it will now be absolutely crucial.

As the economy contracts and eventually rebuilds, new skills gaps will emerge alongside those that were already there. People will need to be able to learn in order to fill those gaps.

As businesses diversify and change their operations, more people will need to learn on the job. In another time, many businesses used European funds, at least in part, to pay for training. How will that funding be replaced?

As we continue to see an ageing population alongside a rapid growth in 18-year-olds, the concept of learning throughout life will become more pertinent than ever.

As flexibility becomes the norm in the workplace, and we grasp the opportunities offered to balance work and family lives, a growing number of people will want, and need, access to flexible learning opportunities.

And as we all become accustomed to living even more of our lives digitally, the challenge of future technological advancements in AI and automation loom ever-present.

We need to recognise that recovering from the Covid-19 crisis requires us to put learning and skills at the front and centre of our new-look society; one where learning throughout life is the norm.

### Simply, this requires three things:

- ✔ Enhanced and consistent investment directly into education providers so that they a) remain solvent; b) can adapt to their changing circumstances; c) can continue their current activities; and d) can expand their activities and contribute to the recovery effort.
- ✔ A recognition that the infrastructure, both physical and digital, needed to support learning throughout life is not yet adequate, and that getting to a point where it is will require investment and cross-government activity.
- ✔ Though we have seen a huge amount of progress, it remains the case that the traditional university experience is still perceived as the default option. However, our nation's recovery from Covid-19 will mean more people will need more and different kinds of flexible learning throughout their lives.

In the immediate term, and throughout the life of the Sixth Senedd, we ask political parties to bear these things in mind and to continue to work constructively with the entire post-16 education sector.

### We specifically ask that you:

- ✔ Commit to working with Wales' nine universities and their sector representative body and provide the required short- and medium-term funding to HEFCW to ensure Wales has resilient and sustainable universities able to support post Covid-19 recovery across the nation.
- ✔ Acknowledge that the higher education sector has sustained a substantial impact from Covid-19, and with the shape of post-16 learning now changing, invest in new infrastructure, technology, and opportunities that allow people to learn flexibly and at a variety of levels.
- ✔ Recognise the unique role of The Open University in Wales as a pan-Wales university – able to connect and enable collaboration across institutions and sectors and commit to support and, where appropriate, fund collaborative work between higher education, further education, and adult community learning providers, focussed on delivering the next government's priorities for learning, skills and the economy.

Cliciwch am y Gymraeg



# SECURING THE FUTURE OF FLEXIBLE HIGHER EDUCATION

Since 2018, we have seen enormous growth in the number of people opting for part-time learning, and particularly welcome growth in the number of students from Wales' most deprived communities. Now we need to build on this momentum and ensure that flexible higher education has long-term stability.

The increase in the number of people being able to study in a way that suits them is much needed, but in the long-term it must be supported by infrastructure and resources. We have seen these past few years how increasing support for students has made education a realistic prospect for thousands more people. Over the coming years, those delivering flexible learning will need more support.

Covid-19 has presented an immediate challenge for universities, and the next Welsh Government should ensure universities have the resources they need to respond. Equally, if flexible, distance and online learning is to become a viable choice for everyone, universities need long-term resources to meet the increased demand.

## Asks

- ✔ Commit to providing stability and confidence in the student finance system. The reformed system has seen the number of new students choosing to study part time with The Open University in Wales increase by over 85% since its introduction, with significant increases in the most deprived communities.
- ✔ With the significant increase in people using the reformed student finance system to access part-time learning, make sure that institutions are properly funded to develop and deliver high-quality student experiences for those who choose to study flexibly.
- ✔ While supporting the next phase of reform through funding from HEFCW or its successor body, support students to borrow at a higher level to fund part-time study when universities need to raise fees to meet growing costs.
- ✔ As more people take up distance learning opportunities, promote, throughout the higher education sector, understanding and application of relevant national and international standards of quality for distance learning.

## Well-being goals

A Prosperous Wales

A More Equal Wales

Cliciwch am y Gymraeg

# LIFELONG LEARNING AND SKILLS INFRASTRUCTURE

There is broad consensus across the education and lifelong learning sectors that now is the right time to introduce a right to lifelong learning, but the crucial thing is to ensure that there is sufficient infrastructure in place to support people to exercise such a right.

That necessarily means being prepared to think big and to think long-term about the kinds of infrastructure challenges Wales continues to face, and bearing in mind how transformative flexible, distance, and online learning can be for people in our most deprived communities.

The flexibility necessitated by Covid-19 is one of the things we should seek to hold onto. By supporting people to access flexible learning opportunities, we can strengthen and unite our communities while also making lifelong learning and skills central to our future growth.

## Asks

- ✔ Recognising both the inherent and economic value of learning, legislate for a Right to Learning and amend the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 to add a new well-being goal: a learning Wales.
- ✔ Improve the physical, social and digital infrastructure needed to support a right to lifelong learning e.g. by committing to every household in Wales having access to high-speed broadband, ensuring adequate public transport in every community, and expanding the existing Childcare Offer.
- ✔ Commit to exploring the introduction and/or expansion of new, flexible routes into the professions, such as nursing and teaching, building on The Open University in Wales' existing provision.
- ✔ Commit to the creation of Community Learning Hubs across Wales, giving people the opportunity to access learning opportunities, receive appropriate information, advice and guidance, and undertake informal learning within the community.
- ✔ Set a target for zero digital exclusion and commit to providing households in the most deprived communities with access to at least one device and means to connect to the internet and support appropriate training opportunities for using digital technology.
- ✔ In light of how different groups of people face different challenges, and how Covid-19 has affected communities in different ways, commit to a systematic review of barriers to learning, and address its findings accordingly. This should include, as a minimum, barriers based on gender, race or ethnicity, disability, sexuality, gender identity, experience of care or being a carer, and socioeconomic background.



## Well-being goals

A Prosperous Wales

A More Equal Wales

A Resilient Wales

A Healthier Wales

A Wales of Cohesive Communities

# DIVERSITY OF LEARNING OPPORTUNITIES

We need to be prepared to look more widely than the traditional view of education which tells us that people only have one chance at education. Learning should be a lifelong process which takes many forms.

The traditional degree will always be an important part of the learning landscape, but we need now to ensure that other kinds of learning – including vocational and professional learning – are equally well-supported.

The skills landscape is changing rapidly, and employers and providers will need to be agile to ensure our citizens have access to the skills and training they need to be able to thrive in their communities and workplaces.

## Asks

- ✔ Expand the number of degree apprenticeship frameworks to include areas of the Welsh economy where there are significant skills gaps and take particular account of the need to ensure parity for women students, Black, Asian and Minority Ethnic students, and disabled students.
- ✔ Review all qualification pathways and ensure that all learners have clear sight of all levels of learning within any given subject area, and portability across further, higher, and work-based learning, including distance learning.
- ✔ Create and implement a new strategy to enhance the opportunities for adults to undertake informal and 'bite-sized' work-based learning (CPD) and non-work based learning, as well as funding and publicising the development of a wider range of sector-endorsed micro-credentials to upskill employees in target sectors.
- ✔ Create a permanent Workplace Learning Fund to allow small and medium enterprises to bid for funding for smaller and more flexible learning and development opportunities.
- ✔ Ensure a strong infrastructure of information, advice and guidance (IAG) available to prospective adult learners in Wales, which addresses the barriers different groups of learners may face and so that more people are able to make informed decisions about the best learning options for them.

## Well-being goals

A Prosperous Wales

A More Equal Wales





# INFORMED AND ENGAGED CITIZENS

Over the course of the last few years, we have seen a steady rise in misinformation and democratic disengagement. We believe that education sits at the heart of building an informed and engaged citizenship, and that fostering critical thinking is one of the core purposes of learning.

When people of all backgrounds are able to make their voices heard, we all prosper. Following Covid-19, as a result of which there has been perhaps more attention than ever on the civic life of Wales, we believe that now is the time for the next Welsh Government to act to enhance critical thinking and a sense of active citizenship among our people.

Universities and other learning providers have an important role to play in achieving that goal, but this work needs to be strategically and politically led and funded by the government of Wales.

## Asks

- ✔ Create an Essential Skills qualification in citizenship to help people better understand the laws that affect them, how to influence public policy, and how to interpret the information and media they consume.
- ✔ Introduce a Financial Literacy Bill to help people of all ages, both through the national curriculum and by other means, understand their personal finances and support options that are available to them.
- ✔ Request the devolution of broadcasting and media to the Senedd and legislate for a duty of candour applicable to all media outlets, including social media platforms, in respect of the veracity and verifiability of published facts.

## Well-being goals

- A Wales of Cohesive Communities
- A Globally Responsible Wales
- A Wales of Vibrant Culture and Welsh Language

# A FUTURE-FOCUSSED WALES

Before Covid-19, we spoke of the challenges and opportunities facing Wales as being two decades away or more, but the crisis has brought them to the here and now. From increased flexibility at work, to buying locally; from less travelling, to volunteering in our communities – these have become the norm.

There will be plenty about the Covid-19 crisis that we will be happy to live without. But where the crisis has presented us with opportunities to look ahead, we should seize them. And where the crisis reminds us of our duty to future generations, we should act upon it.

Universities are essential pillars of their communities: not only by providing learning and teaching, but by creating and sustaining employment, fostering community spirit and cohesion, and supporting social betterment through academia.

As we look ahead, we must grasp the opportunities before us to build a more sustainable and more civic-minded Wales, where learning throughout life is a possibility for everyone.



## Asks

✔ Set a target to decarbonise the higher education sector by 2035 through a combination of offsetting measures, reducing consumption and emissions, and placing a priority on learning opportunities that contribute less to the climate crisis.

✔ Introduce and expand Community Learning Accounts favouring flexible learning opportunities and skills areas that will be of future benefit to the Welsh economy.

✔ Continue to develop, expand, and where appropriate, fund the civic duty of universities to include community learning, research of benefit to communities and society at large, and collaboration across sectors and borders.

It is our hope that the next government uses the themes and asks we have set out in this manifesto to build a programme of activity that will make lifelong learning a realistic prospect for everyone in Wales.

We as universities have a responsibility to play our part in that endeavour, and we hope to find common ground with the next government to make that possible, and to ensure that we do build a brave, new Wales.

## Well-being goals

A Prosperous Wales

A More Equal Wales

A Resilient Wales

A Wales of Cohesive Communities

A Globally Responsible Wales

Get in touch with us to discuss our vision or any of our specific asks.

**wales-external-affairs@open.ac.uk**

Well-being goal icons courtesy of The Office of The Future Generations Commissioner for Wales.

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales, and a charity registered in Scotland (SC 038302).
The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority in relation to its secondary activity of credit broking.

Click for English

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU

# CYMRU DDEWR NEWYDD

**Manteisio ar sgiliau a dysgu gydol oes, ac ailadeiladu Cymru well.**

Maniffesto'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021.



# RHAGAIR



## Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol ac anodd iawn i filoedd o bobl ledled Cymru. Rhaid i ni beidio ag anghofio am yr aberth a'r golled enfawr y mae llawer wedi'u hwynebu.

Mae'r digwyddiadau yn ystod y misoedd diwethaf hyn wedi tarfu ar ein bywydau mewn ffordd nad oedd llawer ohonom erioed wedi'i dychmygu. Ac maent hefyd wedi tarfu ar ein heconomi, ein cymdeithas a'n gweithleoedd.

Bu'n rhaid i bob un ohonom addasu a newid eleni. Ond drwy'r holl dywyllwch, heb os, gwelwyd ambell lygedyn o oleuni a gobaith yn ein cymunedau.

Er bod pob un ohonom yn falch o weld diwedd ar gyfnodau tywyll y flwyddyn hon, rhaid i ni ddal ein gafael ar y newidiadau cadarnhaol hynny a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig eleni.

Un o'r newidiadau hynny yw pwyslais o'r newydd ar ba mor bwysig yw dysgu. Yr hyn rwy'n ei olygu drwy hynny yw dysgu anffurfiol, yn ogystal â dysgu ffurfiol lle byddwch yn ennill cymhwyster ar y diwedd.

Wrth i ni ailadeiladu ac adfer, rhaid i ni beidio â cholli'r cyfle i newid y ffordd y mae pob un ohonom yn meddwl am ddysgu yn llwyr.

Ni allwn ddychwelyd i'r sefyllfa a fu. Os ydym am ailadeiladu ein heconomi a helpu cymdeithas i wella, bydd angen i bob un ohonom allu dysgu pethau newydd.

Mae dysgu hyblyg yn bwysicach nag erioed, o bosibl. Bydd angen i bob un ohonom gael trefn ar bethau, er mwyn i ni allu trefnu ein dysgu o gwmpas ein nifer o ymrwymiadau eraill, boed yn ymwneud â gwaith, teulu, neu wirfoddoli.

Bydd etholiadau'r Senedd yn 2021 yn arwain at lywodraeth newydd ac, ar ba ffurf bynnag, bydd gan y llywodraeth newydd gyfle i ddysgu o'r flwyddyn hon ac ailffurfio ein gwlad.

Yn union fel y mae prifysgolion yn wynebu nifer o heriau, yn enwedig yn dilyn digwyddiadau eleni, rydym hefyd yn gorfod gwneud hynny fel gwlad. Rhaid i ni fod yn ddigon dewr i ystyried yr heriau hyn yn gyfleoedd i wella a thyfu.

Rhaid i ni fod yn barod i ddangos yr un dewrder a meddylfryd radicalaidd â sylfaenwyr y Brifysgol Agored pan grëwyd 'prifysgol yr awyr' yn 1969.

Drwy wneud hyn, byddwn yn chwarae ein rhan yn yr ailadeiladu a'r adfer, yn ogystal ag adeiladu gwlad y gallwn fod yn falch o'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Mae hynny'n ganolog i genhadaeth a diben Y Brifysgol Agored: ehangu cyfleoedd addysg a dysgu gydol oes i'n holl ddinasyddion, a bod yn fudiad dros newid.

Yn hynny o beth, rwyf yn falch o gyflwyno maniffesto'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer chweched etholiad cyffredinol yng Nghymru ac anogaf bob plaid wleidyddol i ystyried ein ceisiadau.



**Louise Casella**

Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru

# SGILIAU A DYSGU GYDOL OES YNG NGHYMRU AR ÔL COVID-19

Ni allwn osgoi'r ffaith y bydd effaith pandemig y Coronafeirws eleni yn hawlio'r sylw am weddill 2020, a'r misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Ar wahân i'w effaith amlwg ar iechyd ein dinasyddion, bu'n hynod niweidiol i'r economi ac i wead ein cymdeithas, a bydd yn parhau felly.

Wrth i ni geisio ailadeiladu ac adfer, rhaid i ni beidio â dychwelyd i'r hen ffordd o weithredu. Ni ddylai adfer normalrwydd olygu dychwelyd i'r hen drefn.

Mae'r argyfwng hwn wedi dod â heriau roeddem yn eu disgwyl dros y degawdau nesaf i'r sefyllfa bresennol, ac mae angen i ni addasu er mwyn goroesi.

Mae dysgu gydol oes wedi bod yn bwysig erioed, ond bydd yn awr yn gwbl hanfodol.

Wrth i'r economi grebachu ac ailadeiladu yn y pen draw, daw bylchau mewn sgiliau newydd i'r amlwg ochr yn ochr â'r rhai a oedd yn bodoli eisoes. Bydd angen i bobl allu dysgu er mwyn llenwi'r bylchau hynny.

Wrth i fusnesau arallgyfeirio a newid eu gweithrediadau, bydd angen i fwy o bobl ddysgu yn y swydd. Mewn cyfnod arall, defnyddiodd nifer o fusnesau gyllido Ewropeaidd i dalu am hyfforddiant, o leiaf yn rhannol. Beth fydd yn cymryd lle y cyllido hwnnw?

Wrth i ni barhau i weld poblogaeth sy'n heneiddio ochr yn ochr â thwf cyflym ymhlith pobl ifanc 18 oed, bydd y cysyniad o ddysgu gydol oes yn dod yn fwy perthnasol nag erioed.

Wrth i hyblygrwydd ddod yn fwy amlwg yn y gweithle, ac wrth inni ymafael yn y cyfle i gydbwyso gwaith gyda bywyd teuluol, bydd angen sicrhau bod cyfleoedd dysgu hyblyg ar gael i nifer cynyddol o bobl.

Ac wrth i ni i gyd ymgyfarwyddo â byw hyd yn oed mwy o'n bywydau yn ddigidol, mae'r her o ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol mewn deallusrwydd artiffisial ac awtomatiaeth yn dod i'r amlwg o hyd.

Wrth adfer o argyfwng Covid-19, mae angen i ni sylweddoli e bod yn ofynnol i ni roi blaenoriaeth i ddysgu a sgiliau yn ein cymdeithas ar ei newydd wedd; cymdeithas lle mai dysgu gydol oes yw'r norm.

## Yn syml, mae angen tri pheth i wneud hyn:

- ✔ Buddsoddiad gwell a chyson yn uniongyrchol i ddarparwyr addysg er mwyn sicrhau eu bod a) yn aros yn ddiddyled; b) yn gallu addasu i'w hamgylchiadau newidiol; c) yn gallu parhau â'u gweithgareddau presennol; ch) yn gallu ehangu eu gweithgareddau a chyfrannu at yr ymdrech i adfer.
- ✔ Cydnabod nad yw'r seilwaith (ffisegol a digidol) sydd ei angen i gefnogi dysgu gydol oes yn ddigonol eto, ac y bydd cyrraedd pwynt lle mae'n ddigonol yn gofyn am fuddsoddiad a gweithgarwch trawslywodraethol.
- ✔ Er i ni weld cynnydd mawr, erys y ffaith yr ystyrir mai profiad traddodiadol y brifysgol yw'r opsiwn disgwyliedig. Fodd bynnag, bydd adfer ein cenedl o Covid-19 yn golygu y bydd angen mwy o fathau gwahanol o ddysgu hyblyg ar bobl drwy gydol eu bywydau.

Yn y tymor byr, a thrwy gydol oes y Chweched Senedd, gofynnwn i bleidiau gwleidyddol gadw'r pethau hyn mewn cof a pharhau i weithio'n adeiladol gyda'r sector addysg ôl-16 cyfan.

## Yn benodol, gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- ✔ Ymrwymo i weithio gyda naw prifysgol Cymru a'r corff sy'n eu cynrychioli, gan ddarparu'r cyllid angenrheidiol tymor byr a thymor hir i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), er mwyn sicrhau fod gan Gymru brifysgolion dygn a chynaliadwy sydd yn gallu cefnogi adfer y genedl o Covid-19.
- ✔ Cydnabod bod Covid-19 wedi effeithio'r sector addysg uwch yn sylweddol, ac wrth i fyd addysg ôl-16 newid, buddsoddi mewn seilwaith, technoleg a chyfleoedd newydd a fydd yn galluogi pobl i ddysgu'n hyblyg ac ar lefelau amrywiol.
- ✔ Cydnabod rôl unigryw'r Brifysgol Agored yng Nghymru fel prifysgol i Gymru gyfan – un sy'n gallu cysylltu a meithrin cydweithio ar draws sefydliadau a sectorau – ac ymrwymo i gefnogi a, lle bo hynny'n briodol, cyllido gwaith cydweithredol rhwng addysg uwch, addysg bellach, a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth nesaf ar gyfer dysgu, sgiliau a'r economi.



# SICRHAU DYFODOL ADDYSG UWCH HYBLYG

Ers 2018, gwelwyd twf mawr yn nifer y bobl a oedd yn dewis dysgu'n rhan amser, ac yn benodol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, sydd i'w groesawu. Nawr, mae angen i ni fanteisio ar y momentwm hwn a sicrhau bod addysg uwch hyblyg yn sefydlog yn y tymor hir.

Roedd dirfawr angen gweld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n gallu astudio yn y ffordd fwyaf priodol iddyn nhw ond, yn y tymor hir, mae angen ei gefnogi gan seilwaith ac adnoddau. Gwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf y ffordd mae cynyddu cymorth i fyfyrwyr wedi galluogi addysg i fod yn bosibilrwydd realistig i filoedd yn fwy o bobl. Dros y blynyddoedd i ddod, bydd angen mwy o gymorth ar y rhai sy'n darparu dysgu hyblyg.

Mae Covid-19 wedi cyflwyno her enbyd i brifysgolion, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod gan brifysgolion yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymateb. Yn yr un modd, os bydd dysgu hyblyg, dysgu o bell a dysgu ar-lein yn dod yn ddewis ymarferol i bawb, bydd angen adnoddau tymor hir ar brifysgolion i ateb y galw cynyddol.

## Gofynion

- ✔ Ymrwymo i ddarparu sefydlogrwydd a hyder yn y system cyllid myfyrwyr. Mae'r system ddiwygiedig wedi gweld cynnydd o fwy na 85% yn nifer y myfyrwyr newydd sy'n dewis astudio'n rhan amser gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru ers iddo gael ei chyflwyno, a chynnydd sylweddol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.
- ✔ Yn sgil y cynnydd sylweddol yn y bobl sy'n defnyddio'r system cyllid myfyrwyr ddiwygiedig er mwyn cael mynediad i ddysgu rhan amser, sicrhau bod gan sefydliadau'r adnoddau i ddatblygu a darparu profiadau o ansawdd uchel i fyfyrwyr sy'n dewis astudio'n hyblyg.
- ✔ Wrth gefnogi'r cam nesaf o ddiwygio drwy gyllid gan CCAUC neu ei gorff olynol, cefnogi myfyrwyr i fenthyca ar lefel uwch er mwyn ariannu astudiaethau rhan amser pan fo angen i brifysgolion codi ffioedd er mwyn talu'r costau uwch.
- ✔ Wrth i nifer gynyddol o fyfyrwyr ddewis dysgu o bell, hyrwyddo, ledled y sector addysg uwch, dealltwriaeth o safonau ansawdd cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol ar gyfer dysgu o bell o safon a'u cymhwyso.

## Nodau Llesiant

Cymru Lewyrchus | Cymru Fwy Cyfartal

Click for English

# SEILWAITH DYSGU GYDOL OES A SGILIAU

Mae consensws eang ar draws y sectorau addysg a dysgu gydol oes mai dyma'r amser iawn i gyflwyno hawl i ddysgu gydol oes, ond y peth hanfodol yw sicrhau bod digon o seilwaith ar waith er mwyn helpu pobl i arfer hawl o'r fath.

Mae hynny o reidrwydd yn golygu bod yn barod i feddwl ar raddfa fawr a meddwl yn y tymor hir am y mathau o heriau seilwaith y mae Cymru yn parhau i'w hwynebu, a chofio pa mor drawsnewidiol y gall dysgu hyblyg, dysgu o bell a dysgu ar-lein fod i bobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae'r hyblygrwydd a achoswyd gan Covid-19 yn un o'r pethau hynny y dylem geisio dal gafael arno. Drwy helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd dysgu hyblyg, gallwn atgyfnerthu ac uno ein cymunedau ac, ar yr un pryd, sicrhau bod dysgu gydol oes a sgiliau yn ganolog i'n twf yn y dyfodol.

## Gofynion

- ✔ Gan gydnabod gwerth cynhenid a gwerth economaidd dysgu, deddfu ar gyfer Hawl i Ddysgu a diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn ychwanegu nod llesiant ychwanegol: sef Cymru sy'n dysgu.
- ✔ Gwella'r seilwaith ffisegol, cymdeithasol a digidol sydd ei angen i gefnogi hawl i ddysgu gydol oes e.e. drwy ymrwymo i sicrhau bod band eang cyflym ar gael i bob cartref yng Nghymru, sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol ym mhob cymuned, ac ymestyn y Cynnig Gofal Plant presennol.
- ✔ Ymrwymo i ystyried cyflwyno a/neu ehangu'r llwybrau newydd, hyblyg i'r proffesiynau, megis nyrsio ac addysgu, gan adeiladu ar ddarpariaeth bresennol y Brifysgol Agored.
- ✔ Ymrwymo i greu'r Hybiau Dysgu Cymunedol ledled Cymru, gan roi'r cyfle i bobl fanteisio ar gyfleoedd dysgu, cael y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad priodol, a chyflawni dysgu anffurfiol yn y gymuned.
- ✔ Gosod targed o ddim allgau digidol ac ymrwymo i sicrhau bod o leiaf un ddyfais ar gael i'r cartrefi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a bod ffordd iddynt gysylltu â'r rhyngrwyd a chefnogi cyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol.
- ✔ Yng ngoleuni'r modd y mae grwpiau gwahanol o bobl yn wynebu heriau gwahanol, a'r ffordd y mae Covid-19 wedi effeithio ar ein cymunedau mewn ffyrdd gwahanol, ymrwymo i adolygiad systematig o'r rhwystrau i ddysgu, gan fynd i'r afael â'i ganfyddiadau yn unol â hynny. Dylai hynny gynnwys, ar y lleiaf, rhwystrau ar sail rhywedd, hil neu ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd, profiad o ofal neu o fod yn ofalwr, a chefndir sosioeconomaidd.



## Nodau Llesiant

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Fwy Cyfartal
- Cymru Gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru o Gymunedau Cydlynus

# AMRYWIAETH O GYFLEOEDD DYSGU

Hyblygrwydd yw'r norm newydd ac, yn yr un modd, mae'n rhaid bod yn barod hefyd i edrych y tu hwnt i'r farn draddodiadol ar addysg, sy'n dweud wrthym mai dim ond un cyfle sydd i gael addysg. Dylai dysgu fod yn broses gydol oes, sy'n digwydd ar lawer ffurf.

Bydd y radd draddodiadol bob amser yn rhan bwysig o'r amgylchedd dysgu, ond mae angen i ni sicrhau bod mathau eraill o ddysgu – gan gynnwys dysgu galwedigaethol a dysgu proffesiynol – yn cael eu cefnogi llawn cystal.

Mae'r dirwedd sgiliau yn newid yn gyflym, a bydd angen i gyflogwyr a darparwyr fod yn hyblyg i sicrhau bod y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar ein dinasyddion er mwyn iddynt ffynnu yn eu cymunedau a'u gweithleoedd ar gael iddynt.

## Gofynion

- ✔ Ehangu'r nifer o fframweithiau gradd-brentisiaethau i gynnwys meysydd yn yr economi yng Nghymru lle mae bylchau sylweddol mewn sgiliau ac ystyried yn benodol pa mor bwysig yw sicrhau cydraddoldeb i fyfyrwragedd, myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig, a myfyrwyr anabl.
- ✔ Adolygu pob llwybr tuag at gymhwyster, gan sicrhau bod gan bob dysgwr ddealltwriaeth glir o'r holl lefelau dysgu o fewn unrhyw faes pwnc penodol, ac y gellir trosglwyddo'r cymhwyster ym maes dysgu pellach, dysgu uwch a dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys dysgu o bell.
- ✔ Creu a gweithredu strategaeth newydd i wella'r cyfleoedd i oedolion gyflawni dysgu seiliedig ar waith anffurfiol a byr (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) a dysgu nad yw'n seiliedig ar waith, ynghyd ag ariannu a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu ystod ehangach o feicro-gymwysterau a gymeradwyir gan y sector i uwchsgilio cyflogeion yn y sectorau targed.
- ✔ Creu Cronfa Ddysgu yn y Gweithle barhaol er mwyn galluogi i fusnesau bach a chanolig wneud cais am gyllid ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu llai a mwy hyblyg.
- ✔ Sicrhau seilwaith cryf ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sydd ar gael i ddarpar ddysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru, sy'n ymdrin â'r rhwystrau mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn eu hwynebu er mwyn galluogi mwy o bobl i wneud penderfyniadau hyddysg am yr opsiynau gorau iddyn nhw.

## Nodau Llesiant



Cymru Lewyrchus



Cymru Fwy Cyfartal






# DINASYDDION GWYBODUS A BRWDFRYDIG

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd cyson mewn camwybodaeth ac ymddieithrio democrataidd. Credwn mai addysg oedd wrth wraidd creu dinasyddiaeth wybodus a brwdfrydig, a bod mabwysiadu meddwl beirniadol yn un o ddibenion craidd dysgu.

Bydd pawb yn ffynnu pan fydd pobl o bob cefndir yn gallu lleisio eu barn. Ar ôl Covid-19, ac o ganlyniad i hynny, bu mwy o sylw nag erioed ar fywyd dinesig Cymru o bosibl. Credwn mai dyma'r amser i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu i hyrwyddo meddwl yn feirniadol a chreu ymdeimlad o ddinasyddiaeth weithredol ymhlith ein pobl.

Mae gan brifysgolion a darparwyr dysgu eraill rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwnnw, ond mae angen i'r gwaith gael ei arwain a'i ariannu gan lywodraeth Cymru yn strategol ac yn wleidyddol.

## Gofynion

- ✔ Creu cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn dinasyddiaeth er mwyn helpu pobl i feithrin dealltwriaeth well o'r deddfau sy'n effeithio arnynt, sut i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus, a sut i ddehongli'r wybodaeth a'r cyfryngau maent yn eu defnyddio.
- ✔ Cyflwyno Bil Llythrennedd Ariannol er mwyn helpu pobl o bob oedran, drwy'r cwricwlwm cenedlaethol a thrwy ddulliau eraill, i ddeall eu cyllid personol a'r opsiynau cymorth sydd ar gael iddynt.
- ✔ Gofyn am ddatganoli darlledu a'r cyfryngau i'r Senedd a deddfu ar gyfer dyletswydd gonestrwydd sy'n berthnasol i bob un o'r cyfryngau, gan gynnwys llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, mewn perthynas â chywirdeb a dilysrwydd ffeithiau cyhoeddedig.

## Nodau Llesiant


Cymru o Gymunedau Cydlynus


Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang


Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Click for English

# CYMRU SY’N CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL

Cyn Covid-19, bûm yn sôn am yr heriau a chyfleoedd sy’n wynebu Cymru fel pe baent ddau ddegawd neu fwy yn y dyfodol, ond mae’r argyfwng wedi dod â nhw i’n bywyd ni yma heddiw. O fwy o hyblygrwydd yn y gweithle i brynu’n lleol; o lai o deithio i wirfoddoli yn y gymuned – mae’r rhain nawr yn rhan o’n bywyd.

Bydd digon o bethau sydd a wnelo â’r argyfwng Covid-19 byddwn yn hapus byw hebddynt. Ond ble mae’r argyfwng wedi rhoi cyfle i ni edrych tua’r dyfodol, rhaid bachu ar y cyfle hwnnw. A ble mae’r argyfwng wedi’n hatgoffa o’n dyletswydd i genedlaethau’r dyfodol, rhaid gweithredu.

Mae prifysgolion yn hoelion wyth hanfodol yn eu cymunedau: nid yn unig trwy ddarparu dysgu ac addysgu, ond trwy greu a chynnal swyddi, meithrin ymdeimlad a chydlyniad cymunedol, a chefnogi gwellhad cymdeithasol trwy academia.

Wrth i ni edrych tua’r dyfodol, rhaid inni ymafael yn y cyfleoedd ger ein bron i adeiladu Cymru fwy cynaliadwy a dinesig ei meddwl, ble mae dysgu gydol oes yn bosibilrwydd i bawb.



## Gofynion

- ✔ Gosod targed i ddatgarboneiddio’r sector addysg uwch erbyn 2035 drwy gyfuniad o fesurau gwrthbwyso, lleihau defnydd ac allyriadau, a rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd dysgu sy’n cyfrannu llai at argyfwng yr hinsawdd.
- ✔ Cyflwyno ac ymestyn Cyfrifon Dysgu yn y Gymuned sy’n ffafrio cyfleoedd dysgu hyblyg a meysydd sgiliau a fydd o fudd i’r economi yng Nghymru yn y dyfodol.
- ✔ Parhau i ddatblygu, ehangu, a lle y bo’n briodol, ariannu dyletswydd ddinesig prifysgolion i gynnwys dysgu cymunedol, ymchwil o fudd i gymunedau a’r gymdeithas yn gyffredinol, a chydweithio ar draws sectorau a ffiniau.

Ein gobaith yw y bydd y llywodraeth nesaf yn defnyddio’r themâu a’r gofynion yn y maniffesto hwn i ddatblygu cynllun gweithredu sy’n gwneud addysg gydol oes yn bosibilrwydd go iawn i bawb yng Nghymru.

Mae gennym ni fel prifysgolion gyfrifoldeb i chwarae’n rhan ni yn yr ymdrech honno, a gobeithiwn ddod o hyd i dir cyffredin gyda’r llywodraeth nesaf er mwyn gwneud hynny’n bosib, ac i sicrhau ein bod wir yn adeiladu Cymru ddewr, newydd.

## Nodau Llesiant

Cymru Lewyrchus

Cymru Fwy Cyfartal

Cymru Gydnerth

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Cysylltwch â ni i drafod ein gweledigaeth neu unrhyw rai o’n gofynion penodol.

**cymru-materion-allanol@open.ac.uk**

Eiconau nodau llesiant drwy garedigrwydd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru.

Ymgorfforir y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), sef elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Awdurdodir a rheoleiddir y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â’i gweithgaredd eilradd o froceru credyd.